

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 6 Chwefror 10, 2022 50c.

Topaza – bywyd newydd

Fe gofiwch, mae'n debyg, fod y cartref i blant amddifad Topaza, un o'r prosiectau a gefnogwyd gan Apêl Madagascar, wedi bod yn datblygu eu gallu i ffermio fel bod modd iddyn nhw fwydo'r plant yn y cartref gyda bwyd maethlon a hefyd bod modd iddyn nhw werthu cynnyrch yn y farchnad er mwyn dod ag arian ychwanegol i fedru cynnal y plant.

Y newyddion da diweddar yw y ganed llo gwryw i Lola'r fuwch ym mis Tachwedd. Mae'r llo'n iach ac fe bwysodd 50kg pan aned ef. Enw'r llo yw Happiness.

Fodd bynnag, ynghyd â'r newyddion da, cafwyd newyddion trist hefyd. Yn anffodus bu farw Rosita'r fuwch o glefyd a ledaenodd drwy'r ynys o Antsirabe hyd Antananarivo. Fe ddilynodd y staff y driniaeth ar gyfer y fuwch gyda chymorth milfeddyg ond ddaeth y fuwch ddim drwyddi.

Erbyn hyn mae'r cartref yn llwyddo i gynhyrchu 10 litr o laeth y dydd ar gyfer y plant yn Topaza.



Cerdded

Un o'r amryw bethau a gollwyd yn ystod y cyfnod clo oedd y cyfleoedd i gymdeithasu wyneb yn wyneb a dyna pryd y profodd Criw Cerdded Minny Street ei werth. Bob bore dydd Mawrth yn ddi-feth mae nifer o aelodau'r eglwys wedi bod yn cyfarfod i fynd am dro hamddenol ar hyd y llwybrau dan y coed ym Mharc Biwt yn y brifddinas gan gadw at reoliadau'r llywodraeth wrth reswm. Wedyn bydd cyfle i roi'r byd yn ei le dros baned o siocled poeth a bydd

ambell un yn cael ei demtio gan y rholiau selsig blasus y mae Caffi Castan yn eu gweini!

Gan fod Urdd Gobaith Cymru yn dathlu ei ganfed pen-blwydd ar ddydd Mawrth olaf Ionawr roedden ni yn awyddus i ymuno yn yr hwyl a recordio'r grŵp yn canu 'Hei Mistar Urdd' ar y dydd arbennig hwnnw. Fe gydiodd bron i ddwy fil o grwpiau yn y syniad ac fe chwalwyd y record byd presennol yn rhacs!

Y dymuniadau gorau oll i fudiad yr Urdd i'r dyfodol ac fe wnawn ninnau i 'ddal i gerdded 'mlan.'



MYANMAR

Mewn nifer o wledydd yn y byd y mae Cristnogion yn cael eu herlid a'u lladd. Yn wir, mewn llawer cenedl nid oes rhyddid crefyddol i'w gael ac fe olyga hynny fod dilynwyd pob crefydd ar wahân i'r un swyddogol yn cael eu cam-drin a'u hamharchu. Fe'n hatgoffir o hyn yn flynyddol gan elusen Open Doors, sy'n creu Rhestr Gwyllo'r Byd. Trwy wneud hyn tynnant sylw at y 50 gwlad lle mae erledigaeth ar ei waethaf. Eleni y mae Affganistan wedi disodli Gogledd Corea fel y wlad waethaf am oddefgarwch crefyddol a hynny o ganlyniad i'r ffaith fod y Taliban wedi dod i rym yno.

Yn 11eg yn y rhestr y mae Myanmar lle mae'r erledigaeth ar Gristnogion wedi cynyddu'n ddirfawr. Y mae hyn wedi digwydd ers chwyldro'r fyddin yn Chwefror 2021. Ers hynny y mae'r fyddin wedi ymosod ar bentrefi ac eglwysi Cristnogol gan anwybyddu mynachlogydd Bwdhaidd yn llwyr. Maent hefyd wedi lladd gweithwyr cymorth a gweinidogion Cristnogol. Mae mwy o Gristnogion nag erioed wedi'u gorfodi i adael eu cartrefi i fyw mewn gwersylloedd ffoaduriaid lle nad ydynt yn derbyn y bwyd na'r gofal iechyd angenrheidiol.

Mewn adroddiad ar wefan y BBC fe ddywedir bod rhyfel cartref wedi cychwyn ym Myanmar. Y mae gwrthdrawiadau ffyrnig bellach rhwng y fyddin a charfanau o ddinasyddion arfog (galwant eu hunain yn Llu Amddiffyn y Bobl). Pobl ifanc yw llawer o'r rhai sy'n ymladd a wrthwynebant y jwnta sy'n llywodraethu. Yn ôl ACLED (Armed Conflict Location and Event Data Project) y mae trais yn lledu trwy'r wlad gan effeithio bellach ar ardaloedd trefol. Cyn hynny roedd wedi ei gyfyngu i ardaloedd mwy gwledig. Dywed rhai ffynonellau fod oddeutu 12,000 o bobl wedi eu lladd yno erbyn hyn, ers i'r fyddin gymryd at yr awenau yn Chwefror 2021.

Cydymdeimlwn yn fawr iawn gyda'n brodyr a'n chwiorydd sy'n dioddef yno gan weddio drostynt a galw ar y llywodraeth i atal y trais yn eu herbyn. Cofiw'n arbennig am un o gyfeillion Undeb yr Annibynwyr sef y Parchg Elvis Sado, sy'n wynebu cyfnod anodd iawn fel gweinidog i'r Arglwydd Iesu. Boed i'r Arglwydd ei gynnal ef a'i deulu yn y sefyllfa ddifrifol y maent yn ei wynebu.




Colofn Natur a Gwyddoniaeth

Ffiseg

Rwy'n dwlu ar ffiseg. Ffiseg yw fy niléit ac wedi bod felly am oddeutu 70 mlynedd ers fy nghyflwyniad cyntaf i'r pwnc yn ysgol ramadeg y bechgyn Castell-nedd. Trwy brifysgol a gyrfa a chyfnod o tua chwarter canrif o ymddeoliad bu ffiseg yn flaenllaw yn fy niddordebau. Pan oeddwn yn fyfyrwr prifysgol derbyniais gyngor parthed bod yn aelod o'r Sefydliad Ffiseg (The Institute of Physics). Dyna a wnes a ffolais ar ddarllen cyfnodolyn misol y sefydliad (erbyn hyn ei enw yw *Physics World*); mae cynnwys hwn yn amrywio o erthyglau penodol, llythyron gan ddarllenwyr, adolygiadau llyfrau ar gyfer y cyhoedd, newyddion am ddatblygiadau mewn meysydd ymchwil. Ers cyrraedd oed yr addewid rwy'n derbyn *Physics World* yn rhad ac am ddim. Rwyf ar ben fy nigon, er rwy'n sylwi bod rhai cyfraniadau yn cyfeirio at ddatblygiadau diweddar, technolegol a deallusol, nad oeddent yn cael unrhyw sylw yn fy nyddiau coleg. Gyda'r pethau newydd mae geiriau a geirfa newydd. Yn aml rwyf allan o'm dyfnder. Derbynnir hyn gyda llawenydd oherwydd mae'n arwydd fod y pwnc yn dal yn fyw.

Hanes ffiseg

Ar hyd y cyfnod mae hanes ffiseg dros filoedd o flynyddoedd wedi bod yn destun difyrwch mawr i mi, gan sylwi ar newidiadau meddwl, dirnadaeth, cymwysiaid technolegol, dan arweiniad dychmygus y 'cewri' megis Archimedes, Copernicus, Galileo, Newton, Maxwell, Einstein, Dirac, Higgs. Roeddwn yn neilltuoel o falch wrth nodi Cymry ymhlith yr enwogion, megis E. J. Williams, E. G. Bowen (roeddwn yn nabod ei rieni yn Saron, Gendros, Abertawe) a Brian Josephson.



Manyllder

Wrth edrych yn ôl, tybiaf mai manylder iaith ffiseg (geirfa benodol, gyson) oedd y nodwedd atyniadol bennaf i fi. Wrth gwrs ni ellid sôn am 'fanylder' geiriau a thermâu yn unig; rhaid cynnwys mathemateg, fformwla a hafaliad. Ond y cysondeb deall a defnydd disgybledig sy'n cyfrif. Er enghraifft, mewn sgwrs gyffredinol ymhith ffrindiau yn y capel neu'r clwb does dim gwahaniaeth rhwng cyflymder (velocity) a buanedd (speed). Ond mewn sgwrs benodol ar ffiseg maent yn sylfaenol wahanol. Felly y mae gyda thermâu eraill, megis, grym, pwysau, màs. Rhaid wrth ddiffiniad clir a defnydd cyson.

Cewri

Fedra i ddim dweud bod Cristnogaeth yn ddileit i mi yn yr un ystyr â ffiseg, ond byddwn yn cyfeirio at 'boddhad a llonyddwch meddwl.' Tua'r un oedran ag yr oeddwn yn cael fy nghyflwyniad cyntaf i ffiseg cefais fy nghyflwyniad cyntaf i Gristnogaeth yn y ddefod o gael fy nerbyn yn gyflawn aelod o eglwys Tabernacl, Sgiwen, ger Castell-nedd. Cyn hynny roeddwn yn hen gyfarwydd ag arferion ac oedfaon capel, ond roedd dod yn aelod yn golygu rhywbeth gwahanol. Y gweinidog ar y pryd oedd y Parchedig Alun Page a thrwy ei bregethau ef y clywais am y 'cewri', nid Mathew, Marc, Luc, Ioan, Pedr, Paul ond Calvin, Barth, Brunner, Bultmann, Pantycelyn, Elfed, gan ddod i sylweddoli nad un dehongliad, nad un mynegiant oedd yn boddhau fel yn achos ffiseg. Dros y blynyddoedd des i ddeall mwy trwy weithiau cewri erall, megis, Tudur Jones, Pennar Davies, Maurice Loader, Vivian Jones. Melltith enwadaeth sy'n gyfrifol am y ffaith mai Annibynwyr yw'r rhain. Erbyn hyn gallwn enwi Anglicaniaid a Chatholigion, megis, Rowan Williams, David Jenkins, Michael Ramsay, Hans Kung.



OND, wrth bori mewn porfeydd crefyddol a chwysu hefyd, rwy'n gweld eisiau eglurder iaith, fel yn ffiseg. Prin iawn yw'r diffiniadau a'r thermâu a'r defnydd cyson ohonynt. Un o freintiau mawr fy mywyd oedd bod yn aelod o eglwys Ebenezer, Queen Street, Wrecsam dan weinidogaeth y Parchedig T. Glyn Thomas. Roedd Mr Thomas yn athro Lladin a Groeg mewn ysgol uwchradd cyn mynd i'r weinidogaeth; roedd ei ddefnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn gain iawn. Roedd ganddo golofn Saesneg yn y *Wrexham Leader*. Un tro soniodd am gyfnod o anhwylder a barodd iddo beidio â gadael y tŷ. Dyma ei sylw yn y *Leader*, 'For some days I have been confined to my study. I have been reading some theology books. I am extremely grateful to these scholars for sharing their insights, but there were times when I felt that they were turning water into H2O.'

Neville Evans

Coleg yr Annibynwyr Cymraeg Cyrsiau'r Gwanwyn

**Darllen, deall a dehongli
Gair Duw heddiw**

**Astudio'r Beibl yn ein
cyd-destun ni**

**7 o'r gloch, nos Lun 7 Mawrth -
Testament Newydd y Beibl**
CATRIN HAF WILLIAMS,
Diwinyddiaeth ac Astudiaethau
Crefyddol, PCYDDS

**Dirnad a datblygu doniau yn
ein heglwysi**

7 o'r gloch, nos Lun 14 Mawrth
BETI-WYN JAMES, Caerfyrddin

7 o'r gloch, nos Fawrth 22 Mawrth
ALUN TUDUR, Caerdydd

**CWRS DEHONGLI'R
YSGRYTHURAU
Yr Actau a'r Epistolau**

**7 o'r gloch, nosweithiau Mercher
gan ddechrau 16 Chwefror**
ALED JONES, Cyfarwyddwr a
Chydlynnydd Hyfforddi'r Coleg

Croeso cynnes iawn i bawb

Bydd pob cwrs ar-lein eleni

Manylion pellach a dolenni
Zoom oddi wrth
aled@colegyrannibynwyr.cymru

Yr Adran Gydenwadol

Be sy a wnelo hyn â FI?

Mae'r Sul 13 Chwefror wedi ei glustnodi yn y calendr eglwysig fel Sul diogelu cyfiawnder hiliol. Yn yr erthygl hon mae Aled Davies yn holi a ydyn NI yn credu bod a wnelo hynny rhywbeth efo NI fel eglwys ac fel unigolion.


Bob blwyddyn ers 1995 mae'r Eglwys Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon wedi bod yn trefnu Sul Cyfiawnder Hiliol, gan ddarparu adnoddau addoliad a gwybodaeth ffeithiol i eglwys. Y sbardun ar gyfer hyn oedd marwolaeth drasig yr hogyn ifanc du, Stephen Lawrence, a hynny yn Eltham, de Llundain, ar 22 Ebrill 1993. Roedd Stephen yn dychwelyd adref gyda ffrind pan ymosodwyd arno a'i ladd gan griw o lanciau gwyn. Bu'r ymchwiliad a ddilynodd y llofruddiaeth hon yn hynod ddiffygiol o safbwynt yr heddlu; ar un adeg bu'r heddlu hyd yn oed yn ysbio ar deulu Stephen Lawrence. Arweiniodd hyn yn y pen draw at gynnal Ymchwiliad Cyhoeddus dan ofal Jack Straw, yr Ysgrifennydd Cartref Llafur ar y pryd.

Ymhen amser cyhoeddwyd Adroddiad Macpherson, a ddaeth i'r casgliad fod yr ymchwiliad i farwolaeth Stephen wedi cael ei 'gawlio gan gyfuniad o anwybodaeth broffesiynol, hiliaeth sefydliadol a methiant arweinyddol'. Cafodd swyddogion penodol o fewn yr heddlu eu henwi, a beirniadwyd y corff cyfan am fethiannau dirfawr.

Roedd llofruddiaeth Stephen Lawrence yn un o nifer o enghreifftiau o ladd pobl dduon a phobl ifanc Asiaidd bryd hynny, er enghraifft Ricky Reel, Roland Adams, Qudus Ali ac eraill. Yr hyn a nodweddai'r holl achosion hyn (ar y pryd) oedd na chafwyd neb yn euog o'r lladdiadau hyn. Roedd y teulu Lawrence yn Gristnogion ac yn mynychu Eglwys y Methodistiaid yn Plumstead, de-ddwyrain Llundain.

Y cysylltiad hwn fu'n sbardun i annog yr Eglwys Fethodistaidd i gymryd diddordeb yn yr achos hwn, gan annog enwadau eraill i gydweithio drwy gorff CTBI. Ar wahân i'r lladdiadau hyn, roedd Prydain y pryd hwnnw'n cynnwys cymunedau oedd yn llawn tensiynau hiliol, a arweiniodd at frwydr gynyddol gan lawer o ymgyrchwyr ar ran pobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig i gael cyfiawnder a chydarddoldeb yn y system cyfiawnder troseddol, cyflogaeth, addysg, iechyd (meddwl) a meysydd eraill sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus.

Yna, ynghanol y pandemig, llofruddiwyd George Floyd, Americanwr Affricanaidd, gan heddwys yn Minneapolis, UDA, ym mis Mai 2020. Cafodd y llofruddiaeth hon eto effaith fawr ar y frwydr i sicrhau cyfiawnder



hiliol ledled y byd, gan roi'r mater 'nôl unwaith eto yn ganolog ar agenda eglwys a chymdeithas ar draws y byd. Ym Mhrydain ac Iwerddon, arweiniodd hyn nifer o enwadau eglwysig, grwpiau para-eglwysig a sefydliadau Cristnogol i gyhoeddi datganiadau'n condemnio hiliaeth ac yn gwneud ymrwymadau i herio hiliaeth o fewn eu strwythurau, a gweithio er dileu anghyfiawnderau ar sail hil. Disgrifiwyd llofruddiaeth George Floyd fel moment allweddol roddodd fater cyfiawnder hiliol yn ôl ar agenda'r eglwys eto, ac arweiniodd hyn at lawer o drafod dwys ac awydd ar ran llawer i weld newidiadau sylfaenol.

Y thema ar gyfer oedfa Sul Cyfiawnder Hiliol eleni yw 'Be sy a wnelo hyn â FI?', gan gofio bod ymchwil yn dangos bod llawer o Gristnogion ac eglwys yn honni nad oes angen iddynt roi unrhyw ystyriaeth i hyn o gwbl. Yn ei ragair i'r adnoddau mae Richard Reddie, Cyfarwyddwr Cyfiawnder a Chynhwysiant, Eglwys Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, yn dweud:

'Mae yma alwad clir ar bob Cristion i ymddiddori yn y frwydr dros gyfiawnder hiliol, gan fod cyfiawnder hiliol yn fusnes i bawb ohonom. Mae gan y Beibl lawer i'w ddweud am gyfiawnder, oherwydd mai Gair "Duw" ydyw, ac o'r herwydd mae'n adlewyrchu calon Duw dros gyfiawnder. Gellir dadlau y dylem ninnau felly garu cyfiawnder oherwydd mai dyna mae Duw yn ei wneud! Mae hiliaeth a "gwahaniaethu ar sail hil" yn faterion cyfiawnder, oherwydd eu bod yn gwadu cyfiawnder sylfaenol ac urddas dynol i fenywod a dynion, a grëwyd ar lun a delw Duw. Ond

nid pawb a gydiodd yn yr her, a dewisodd rhai eglwys anwybyddu'r anghyfiawnder hwn. Mae'r adnodd hwn wedi'i ysgrifennu gyda'r garfan honno'n benodol mewn golwg, oherwydd bod y gwaith i ddod â hiliaeth i ben yn gofyn am ymdrech ac ymateb gan bawb o fewn yr eglwys.'

I eglwys nad ydynt wedi rhoi sylw i Sul Cyfiawnder Hiliol o'r blaen, efallai oherwydd nad oeddent yn teimlo'n barod i wneud hynny, bydd yr adnodd hwn yn rhoi'r cyfle iddynt chwarae rôl weithredol yn y gwaith. I'r rhai sydd wedi dadlau fod eu heglwys yn cael eu heithrio am nad oes ganddynt bobl ddu, Asiaidd neu rai o leiafrifoedd ethnig yn eu cynulleidfaoedd, ac felly nad oes angen rhoi sylw i'r mater, mae'r adnodd hwn yn awgrymu bod gan eglwys yn yr ardaloedd hyn ran bwysig i'w chwarae wrth annog cymunedau i fod yn fwy derbyniol a chroesawgar o bobl o bob cefndir a diwylliant. O'r herwydd, mae'r deunydd hwn yn arfogi eglwys â'r adnoddau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r sefyllfaoedd hyn. Meddai Richard Reddie, 'Mae'r gwaith i roi terfyn ar hiliaeth yn gofyn am ymateb ar y cyd gan bawb sy'n rhan o'r Eglwys'.

Os yw cyfiawnder hiliol yn fusnes i BAWB, ni ddylid ei ystyried yn fater 'beichus a chymhleth i'w osgoi', ond yn gyfle i eglwys ganolbwyntio ar y tair prif eglwyddor sef Cofio, Myfyrio ac Ymateb:

- COFIO pwysigrwydd cyfiawnder hiliol
- MYFYRIO ar amrywiaeth dynol a diolch i Dduw amdano
- YMATEB drwy weithio i roi terfyn ar anghyfiawnder, hiliaeth a canwybodaeth – a hynny trwy barodrwydd i weithredu, ac mewn ysbryd o weddi.

Cyhoeddwyd y pecyn yn Gymraeg eleni, ac mae ar gael i'w lawrlwytho o wfan [CTBI](#). Ceir ynddo ystod eang o ddeunyddiau a fydd yn galluogi eglwys a chynulleidfaoedd i gynnal gwasanaeth yn canolbwyntio ar gyfiawnder hiliol. Mae'r adnoddau wedi'u creu ar gyfer Cristnogion o bob traddodiad ac eglwys o bob enwad, a gobeithir y bydd defnydd helaeth ohonynt.

Ond erys y cwestiwn: tybed beth yw eich ymateb personol chi? Be sy a wnelo hyn â fi? Fel dilynwyd Iesu Grist, gobeithio ein bod yn derbyn ac yn croesawu holl bobl Dduw, ac yn barod i sefyll yn gadarn yn erbyn POB anghyfiawnder a cham.

'Stopiwch wneud drwg; dysgwch wneud da. Brwydrwch dros gyfiawnder, o blaid y rhai sy'n cael eu gorthrymu.' (Eseia 1: 17)

Galwad frys am weddi a chydsefyll gyda thrigolion Myanmar a'r eglwys yno

Aeth blwyddyn heibio ers y *coup* milwrol ym Myanmar sydd wedi golygu ansefydlogrwydd a thrais i'r bobl yno byth ers hynny.

Mae gan lawer o enwadau diwygiedig y Deyrnas Unedig gysylltiad ag Eglwys Bresbyteraidd Myanmar (PCM), sydd wedi ymdrechu i barhau â'i gwasanaeth a'i thystiolaeth yn wyneb y bygythion, y colledion a'r trais a ddaeth i'w rhan yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r PCM yn aelod o Gyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM) ac yn cynnwys 30,000 o aelodau.

Mewn cyfarfod gweddi i nodi blwyddyn ers dechrau'r trais yno fe glywyd am y caled mae aelodau'r eglwys a'i gweithwyr wedi ei ddioddef dan law'r awdurdodau milwrol. Bu hyn oll, wrth gwrs, ar ben effaith y pandemig ar y wlad, gyda bywydau pobl yn cael eu bygwth oherwydd diffyg diogelwch a diffyg adnoddau meddygol fel brechlynnau ac ocsigen ac ati.

Bu i lawer o bobl ffoi i wledydd cyfagos ac mae llawer mwy wedi eu dadleoli y tu mewn i Myanmar. Anogwyd eglwys ledled y byd i gofio am y sefyllfa ym Myanmar gan y Parch Ddr Jooseop Keum a fynegodd ei gonsŷrn difrifol a'i gydymdeimlad â'r eglwys yno a chyda'r rhai sy'n ceisio heddwch a datrysiaid i'r ymladd. Gallwn gofio mewn gweddi, fel

y weddi yma a baratowyd ganddo isod, a hefyd ystyried sut y gall ein heglwys ninnau gynnig cefnogaeth ymarferol a chydsefyll â thrigolion y wlad. Mae CWM yn paratoi i anfon cefnogaeth ariannol eto, er y rhwystrau i wneud hynny. Llwyddodd cronfa argyfwng Sasiwn Chwiorydd EBC i gyfrannu a throsglwyddo swm o arian hefyd.

Da oedd clywed am yr arweiniad a gafwyd gan Eglwys yr Alban a'i llywydd, yr Arglwydd Jim Wallace, cyn ddirprwy brifweinidog y Senedd yn Holyrood, drwy roi pwysau fel eglwys ar Swyddfa Dramory Deyrnas Unedig i osod sancsiynau ar y wlad wrth i'r gyfundrefn filwrol yno barhau â'i hymosodiadau ac anwybyddu apeliadau i drafod a chamu yn ôl. Erys arweinydd etholedig y wlad, ynghyd ag aelodau eraill o'r blaid a reolai hyd y *coup*, dan glo. (HP-D, gol.)

"Dyma nhw'n galw ar yr ARGLWYDD yn eu trybini, a dyma fo'n eu hachub o'u trafferthion" (Salm 107:6).

Gweddi:

Arglwydd bywyd, erfyniwn arnat i roi dy ras a'th diogelwch dros bobl Myanmar. Clyw gri'r rhai sy'n dyheu ac yn ceisio democratiaeth, a chofia ymdrechion y rhai sy'n ceisio heddwch ym Myanmar, hyd yn oed ar boen eu bywydau.

Arglwydd cyfiawnder, erfyniwn arnat i ddangos na all neb fodd cyfiawnder trwy nerth a thrwy rym. Clyw gri'r rhai sy'n galw am gyfiawnder a heddwch, a chofia amgylchiadau'r rhai dan erledigaeth, y rhai toredig, a'r rhai sydd wedi eu dadleoli a'u dal yn eu gwlad eu hunain.

Arglwydd gobaith, erfyniwn arnat i adfer synnwyr o berthyn yno sy'n cynnwys pawb, ynghyd â diogelwch ym Myanmar. Clyw gri'r rhai sy'n ymdrechu'n daer i gynnal y bobl yno mewn awyrgylch o drais a gobeithiwn y bydd datrysiaid heddychlon a chyflym i'r gwrthdaro hwn.

Arglwydd tangnefedd, erfyniwn arnat i gofio lles pob enaid ym Myanmar. Clyw apêl y rhai sy'n glaf ac angen gofal ar yr adeg boenus hon. Bendithia hwy â'th ras iachusol drwy barhad pob gofal iechyd iddynt ac atal lledaeniad haint Covid-19 yn y tir.

Arglwydd Eglwys Bresbyteraidd Myanmar, erfyniwn arnat i wyllo dros ein brodyr a'n chwiorydd wrth iddynt gyfarfod yn eu synodau rhanbarthol ac yn eu Cymanfa Gyffredinol ym mis Chwefror. Dyro fendith ymarferol ar ffurf cysylltiad gwe sefydlog ac effeithiol iddynt i diogelwch i'r rhai sydd angen teithio i gyfarfodydd ynghanol ansefydlogrwydd sifil a gwrthdaro arfog. Bydded yr Eglwys yn sianel bendith i gynorthwyo ac i gynnal yr holl rai sydd wedi eu dadleoli yn y wlad.

Yn enw Iesu, Amen.



Llun: trwy law Eglwys yr Alban

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 13 Chwefror, am 7:30yh (ailddarlliedir am 11:30yb y Sul canlynol)

Bydd Lisa yn troedio llwybr Mari Jones yng nghwmni Mary Thomas ac mi gawn ni gipolwg ar un o eiconau crefydd y Cymry, yr union gopi o'r Beibl a gafodd Mari Jones gan Thomas Charles yn y Bala yn 1800.

Dyma gopi o gylchlythyr mis Chwefror y rhaglen *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*, cliciwch ar y ddolen i gael golwg arno:

<https://express.adobe.com/page/FbvmDLILnaoqm>

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 13 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp

Cyfle eto i glywed rhaglen lle mae Elen Ifan yn bwrw golwg ar rai o'r straeon sy'n gefndir i enwau ein hemyn-donau.

Oedfa Radio Cymru

Sul, 13 Chwefror, am 12:00yp

Gwasanaeth yng ngofal Siân Meinir, Penarth

Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd

Fel deunydd ar gyfer myfyrdod personol ac astudiaeth grŵp, byddwn yn parhau hyd y Grawys â'r myfyrdodau o'r gyfrol *The Prince of Peace in a World of Wars* gan David Kerrigan.

14 Rhoi theori ar waith

Heddwch, gofal o'r greadigaeth a'r tlawd

Darlenn Salm 104: 10–23

Yr wyt yn gwneud i'r gwellt dyfu i'r gwartheg, a phlanhigion at wasanaeth pobl, i ddwyn allan fwyd o'r ddaear, a gwin i lonni calonnau pobl, olew i ddisgleirio'u hwyneb, a bara i gynnal eu calonnau. (adn. 14–15)

Dros y blynyddoedd rwyf wedi bod mewn llefydd rhyfeddol, ac roedd cynhadledd byd-eang yn Hawaii yr un mor arbennig ag y byddech chi'n ei ddychmygu. Wrth inni hedfan dros filoedd o filltiroedd o gefnfor, a chael cip o'r diwedd ar y dotiau bychan oedd yn ffurfio ynysoedd Hawaii, fe ddaethom yn fuan i sylweddoli mor agos yw'r berthynas rhwng y bobl yno a'u hamgylchfyd. Fe'n cyfarchwyd gan Gristnogion lleol ar y noson gyntaf gyda siant a ddefnyddiwyd ers cenedlaethau i groesawu pobl i'r lle hardd hwn:

Cymuned ar ynysoedd yng nghanol y Môr Tawel anferth ydym ni. Oherwydd hyn rydym yn agored i deimlo'r gwyntoedd sy'n chwythu o'n cwmpas, y tonnau sy'n torri ar ein glannau, y glaw sy'n disgyn i ffrwythloni ein tir gwerthfawr. Rydym yn dibynnu ar y naill a'r llall er mwyn byw. Mae'r cyfan a ddaw gan ein Duw mawr yn werthfawr yn ein golwg.

Gan fod atmosffer ein byd wedi cynhesu dros y blynyddoedd diwethaf, mae goblygiadau hynny i bawb sy'n byw ar ein planed fechan yn dod yn fwyfwy amlwg a real. Wrth i Gristnogion ddechrau cysylltu gofalu am y greadigaeth â'u ffydd, a hyd yn oed i sôn amdano fel rhan o genhadaeth yr eglwys, roeddwn i'n amheus. Doeddwn i ddim yn amau'r wyddoniaeth y tu ôl i gynhesu byd-eang na'i effaith, ond roeddwn i'n methu gweld y cysylltiad â'r efengyl. Roeddwn i'n ddall; erbyn heddiw mae gen i gywilydd, bron, o'm harafwch i ddeall.

Y person y bu ei gwaith o fwyaf o gymorth i mi oedd Stella Simiyu, botanegydd ac aelod o gyngor A Rocha, yr elusen gadwraeth Gristnogol ryngwladol. Gosododd y cwestiwn hwn i mi: 'Fedri di ddychmygu dy fywyd heb dy siopau ac archfarchnadoedd, dy orsaf betrol neu dy fferyllfa?' Chymerodd hi ddim yn hir i mi sylweddoli'r effaith enfawr y byddai hynny'n ei gael ar fy mywyd i. Aeth yn ei blaen, 'Mae pobl dlawd, gwledig, yn dibynnu'n uniongyrchol ar sylfaen o

adnoddau naturiol [o foroedd, afonydd a choedwigoedd]. Dyma lle mae eu fferyllfa, dyma lle mae eu harchfarchnad, dyma mewn gwirionedd eu gorsaf danwydd, eu cwmni egni, eu cwmni dŵr.¹

Os ydym yn fodlon gwneud y cysylltiad rhwng yr efengyl a gweithio dros gyfiawnder i'r tlawd, yna cam bychan ymhellach yw meddwl am ofal am y greadigaeth. Yn aml, bydd pobl dlawd yn byw â chysylltiad agosach at y tir a'r môr na'r cyfoethog, ond y cyfoethog sy'n cael y mwyaf o ddylanwad ar yr amgylchedd...

EWCH yn ôl at y ddealltwriaeth o Shalom y bu inni ei harchwilio ar ddechrau ein hastudiaethau, gan feddwl am natur gorfforol y cysyniad ohono. Mae a wnelo heddwch gymaint â bwyd a chysgod a diogelwch ag sydd a wnelo hyn â'n perthynas â Duw. Ar waelod hierarchaeth Maslow o anghenion, mae ein hangen corfforol am fwyd, diod, dillad a chysgod.² Weithiau byddwn yn tynnu ein ffydd allan o'r corfforol ac yn rhoi gwedd arallfydol iddi. Ydy, mae'r wedd honno'n rhan ohoni, ond mae traed ffydd wedi eu plannu'n gadarn ar y ddaear. Ymatebodd Iesu i'r cwestiwn, pa un yw'r gorchymyn pwysicaf drwy ddweud: "a châr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl ac â'th holl nerth.' Yr ail yw hwn, 'Câr dy gymydog fel ti dy hun.' Nid oes gorchymyn arall mwy na'r rhain." (Marc 12:30–31)

Gwnewch nodyn o'r sylw olaf – nid oes gorchymyn arall mwy na'r rhain. Yn fersiwn Mathew o'r sgwrs hon mae'n darfod drwy ddweud, 'Ar y ddau orchymyn hyn y mae'r holl Gyfraith a'r proffwydi yn dibynnu' (Mathew 22:40). Mae'r un honiad anhygoel mewn geiriau gwahanol, fod y cyfan o'r ysgrifur Hebreig yn cael ei grynhoi yn hyn – câr Dduw a châr dy gymydog.

Mae'r gorchymynion hyn yn fwy na dim ond dwy restr o flaenoriaethau. Maent wedi eu plethu'n annatod ynghyd... Allwn ni ddim dewis caru Duw ac anwybyddu ein cymydog, oherwydd fe fyddai gwneud hynny yn anwybyddu'r hyn a olyga i garu Duw. Y testun amlwg sy'n cefnogi hyn yw Mathew 25:31–46, lle dywed Iesu, 'Oherwydd bûm yn newynog a rhoesoch fwyd imi, bûm yn sychedig a rhoesoch ddiod imi, bûm yn ddieithr a chymerasoch fi i'ch cartref; bûm yn noeth a rhoesoch ddillad amdanaf, bûm yn glaf ac ymwelsoch â mi, bûm yng ngharchar a daethoch ataf' (adn. 35–6). Ac mewn ateb i'r cwestiwn, 'Pryd ddaru ni

wneud hynny i gyd?' – 'Yn wir, 'rwy'n dweud wrthy, yn gymaint ag ichwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy nghymrodyr, i mi y gwnaethoch' (adn. 40). Felly, mae caru Duw yn golygu caru'r tlawd hefyd, ac os oes gennym ni gariad tuag at y tlawd (a ni ein hunain), fe fyddwn yn barod i ofalu am y greadigaeth.

Bydd cariad at y tlawd yn aml yn arwain at roi elusenol. Ond dydy hi ddim yn ddigon estyn elusen yn unig i'r rhai sydd mewn angen; mae angen inni fyw ac ymddwyn mewn modd fel na fydd angen ein helusen arnynt. Archesgob Catholig ym Mrasil oedd Hélder Câmara (1909–99), a gweithiodd ymysg y tlawd y rhan fwyaf o'i fywyd. Ef piau'r dyfyniad, 'Pan roddaf fwyd i'r tlawd, maen nhw'n fy ngalw yn sant. Pan ydw i'n gofyn pam eu bod nhw'n dlawd, maen nhw'n fy ngalw yn gomiwnydd.'

Rhaid i ninnau fynd y tu hwnt i ofyn sut y gallwn ni helpu'r tlawd, i ofyn 'Pam eu bod nhw'n dlawd? Pam nad oes yna swyddi, dim ysgolion a dim brechiadau? Pam mae yna lifogydd a sychder a newyn yn y lle cyntaf?' Mewn rhai achosion, rhyfel neu lygredigaeth yw'r ateb, a hyd yn oed yn ddiweddar mae'r gorllewin wedi rhuthro i ganol anghydfodau lle dylid bod wedi ceisio datrys y sefyllfa fel arall. Ond, yn aml, ein ffordd o fyw ni ein hunain a'n economi byd-eang gwancus sy'n rheibio'r adnoddau naturiol y mae'r tlawd eu hangen er mwyn byw o ddydd i ddydd... Mae allyriadau carbon wedi gwenwyno ein hatmosffer, ac wrth i gopaon iâ dodi a lefelau'r môr godi, fe roddir cannoedd o filiynau o bobl dlotaf ein byd mewn perygl. Y tristwch yw mai ein plant a'n hwyrion fydd yn gweld y gwaethaf o effeithiau newid hinsawdd, ac yn waeth fyth blant ac wyrion y rhai sy'n dlawd heddiw.

Allwn ni ddim gwadu'r mai digalon ydy'r olwg yma ar bethau. Ond gobeithiwn nad yw'n rhy hwyr. Mae cenedloedd yn gwneud newidiadau graddol, gan anelu at economi garbon-isel. Dwi'n hoff iawn o olwg tyrbinau gwynt, nid yn unig am eu bod yn harddach na'r peilonau sydd i'w gweld ar ein tirwedd (er bod rhai'n hoffi'r rheiny hefyd!) ond am fod pob un ohonynt yn arwydd ein bod o ddirfi yn y gwaith o harneisio ynni adnewyddol. Rhaid inni ddal i bwysu i'r cyfeiriad yma am mai dyma'r gobaith gorau sydd gennym o wneud iawn am y difrod amgylcheddol a wnaethom. Mae'r gyfran a roddir gan lywodraeth y Deyrnas Unedig at gymorth tramor yn barchus o leiaf ac wedi ei chynnal drwy flynyddoedd anodd.³ Yma eto, dylem gadw'r pwysau ar ein gwleidyddion i gynnal yr ymrwymiad hwn, neu'n well fyth, i wneud mwy. Yn lleol, mae'r ffordd yr ydym yn byw ac yn gwario ein cyfoeth (ac yn ei roi yn elusen) yn arwyddion o faint o gyswllt a welwn rhwng caru Duw, caru ein cymdogion, heddwch a chyfiawnder, gofal am y greadigaeth a'n cyfrifoldeb tuag at y tlawd.

¹ Stella Simiyu, dyfynnir yn Dave Bookless, Planetwise (IVP, 2008), Atodiad Cwestiwn 6. Am fwy o wybodaeth am A Rocha, gweler www.arocha.org

² Gweler Saul McLeod, 'Maslow's hierarchy of needs', www.simplypsychology.org/maslow.html

³ Ysgrifennwyd y llyfr hwn yn 2017 cyn y toriadau a wnaed yn 2020 gan y llywodraeth bresennol o 0.2% GDP i'r lefel o gymorth tramor a gynigir. Nid oes golwg eto am adferiad yn y sefyllfa yn ôl i 0.7% o'r GDP.

GOHEBIAETH

Os na wnawn ni godi llais, pwy wnaiff?

Dros y misoedd diwethaf, mae cyfres o erthyglau yn *Y Tyst* wedi mynd i'r afael â'r argyfwng sy'n wynebu'r cymunedau Cymraeg yng nghefn gwlad Cymru. Mae newidiadau mewn polisïau amaethyddol, yn y farchnad eiddo, yn y busnes newydd o wrthbwysu carbon (carbon off-setting) ac yn y blaen wedi cyfuno i greu tswami o broblemau difrifol sy'n bygwth dyfodol yr iaith. Mae hyn yn wir yn enwedig dros ein rhwydwaith o ffermydd teuluol. Mae'r problemau hyn yn gysylltiedig. Os na redir i'r afael â hwy – a pwy arall a wnaiff? Gallai'r rhain arwain at ganlyniadau tyngedfennol i'r iaith Cymraeg.

Gwladychiaeth garbon

Ystyried y ffenomenon newydd hon o 'wrthbwysu carbon'. Mae credyd carbon yn cynrychioli un dunnell o nwyon tŷ gwydr, y bernir eu bod wedi'u hosgoi neu eu symud o'r atmosffer. Mae marchnad ryngwladol broffidiol iawn ar gyfer y credydau hyn wedi ffynnu, gan ganiatáu i gorfforaethau mawr wrthbwysu nwyon tŷ gwydr na ddylid eu cynhyrchu yn y lle cyntaf. Yn hytrach nag ymrwymo i adael tanwydd ffosil yn y ddaear, mae cwmnïau olew a nwy yn parhau i chwilio am feysydd newydd wrth honni bod y credydau y maent yn eu prynu wedi eu troi'n 'garbon niwtral'. Mae llawer o brosiectau credyd carbon yn digwydd mewn rhannau anghysbell o'r byd ymhell i ffwrdd o archwiliad manwl ac ar dir sy'n eiddo haeddiannol i bobl frodorol nad ydynt wedi rhoi eu caniatâd i'r fath datblygiadau. Hynny yw gwladychiaeth garbon, os goddefir yr



yamadrodd! Pa mor hawdd yw hi i natur ddynol droi rhywbeth da yn rhywbeth drwg?

Colli

Mae ffermydd cyfan nid ymhell o Rydcymerau wedi cael eu gwerthu yn ddiweddar i gwmnïau buddsoddi mewn credydau carbon yn Llundain. Nod y cwmnïau hyn yw gorchuddio'r tir cynhyrchiol hwn gyda phlanhigfeydd conwydd er mwyn gwrthbwysu carbon. Y coed anghywir yn y manau anghywir am y rhesymau anghywir. 'Coed lle y bu cymdogaeth, fforest lle bu ffermydd' fel y cannodd Gwenallt ar ôl yr ail ryfel byd. Yr effaith o hyn oll yw codi prisiau tu hwnt i gyrraedd pobl leol a cholli cymunedau wedyn. 'Colli iaith, colli coron aur cymdeithas', chwedl Harri Webb gynt.

Bioamrywiaeth

Yn wyneb y fath tswami buasai'n hawdd digalonni a cholli gobaith yn llwyr, ond nid felly yw ffordd y Cristion. Fel Cristnogion Cymraeg dylen ni fod yn ymwybodol fod gweinidogaeth Iesu wedi digwydd ar lannau Môr Galilea, ar gyrion pellaf Ymerodraeth Rhufain ac mewn iaith leiafrifol, yr Aramaeg. Un o'r agweddau ar newid hinsawdd sydd wedi peri'r pryder mwyaf i'r arbenigwyr fu'r dirywiad sydyn mewn bioamrywiaeth ym myd natur. Mae'r

chwmp eithafol yn nifer siaradwyr ieithoedd lleiafrifol dros y byd yn rhan sylweddol o'r broblem hon.

Deled Ei Deyrnas

Mae Iesu'n ein dysgu ni i ochri â'r tlawd a gwan yn erbyn y cyfoethog a'r pwerus, nid trwy ddefnyddio trais ond trwy rym ei esiampl Ef. Mae rhaid i ni godi ein lleisiau yn erbyn bob anghyfiawnder i brysuro'r Deyrnas i ddod. Dyma ddyletswydd broffwydol pob Cristion. Mae angen inni hefyd herio'r sicrwydd ffug sy'n ein darbwylllo nad oes angen inni newid y ffordd yr ydym yn byw. I ddefnyddio'r term Cristnogol, mae angen i ni alw am edifeirwch.

Mae gennym gyfle yn nawr i weithredu mewn ffordd ymarferol i gefnogi cymunedau Cymraeg eu hiaith trwy'r ymateb i dri ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru sy'n wneud ar yr argyfwng tai. Rhaid gwneud hynny ar frys, oherwydd bydd yr ymgynghoriadau'n cau ar y 22 Chwefror 2022. Dyma'r manylion:

Ymgynghoriadau

- Y cyntaf yw: Deddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr dyma'r ddolen - <https://llyw.cymru/deddfwriaeth-pholisi-cynllunio-ar-gyfer-ail-gartrefi-llety-gwyliau-tymor-byr>.
- Yr ail yw: Ail gartrefi: amrywiadau lleol i gyfraddau'r dreth trafodiadau tir. Dyma'r ddolen - <https://llyw.cymru/ail-gartrefi-amrywiadau-lleol-i-gyfraddau-treth-trafodiadau-tir>
- A'r trydydd yw: Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg, a'r ddolen yw - <https://llyw.cymru/cynllun-tai-cymunedau-cymraeg>

David Barnes, Cwmystwyth



Coleg yr Annibynwyr

Cynhelir cyfarfod Tanysgrifwyr Coleg yr Annibynwyr Cymraeg am 2.00 y.p. dydd Llun 14 Chwefror ar Zoom. Os hoffech gael y ddolen cysylltwch gyda'r Parch. Trefor Jones-Morris trwy: jonesmorrist@gmail.com

Barn Annibynnol

Oes gan lesu theme tune?

Mae gan bob arwr theme tune yndoes? Meddylwch am James Bond, The Saint, Indiana Jones ... mae mwy wrth gwrs, ac mae gan bob un ohonom ein ffefrynnau, siawns ... Wrth glywed y llond dwrn o nodau cychwynnol trawiadol, mi nabyddwch chi pwy yw'r arwr yn syth. Mae'n amlwg fod gan bob un o'r cymeriadau hyn ffydd digwestiwn ymddy nhw eu hunain ac yn eu galluoedd hefyd, does dim pripsyn o amheuaeth yn perthyn iddyn nhw. Maen nhw'n llwyddo ymhob dim maen nhw'n ei wneud, wel, neu fydden nhw ddim yn arwyr sydd â rhaglenni neu ffilmiau cyfan i'w henwau, yn na fydden?



Dim blewyn o'i le

Roedd yna ffilm gomedi flynyddoedd yn

ôl, chofia i ddim o'i henw hi nawr, ond ynddi mi oedd criw o ddynion yn trafod un o'u cydnabod ac yn sôn pa mor cŵl oedd e. Roedd gan bob un o'r criw stori amdano er mwyn profi pa mor uchel oedd lefel ei cŵl. Y ffordd roedd e'n gwisgo, y ffordd roedd e'n cerdded, yr hyn roedd e'n ei ddweud. Cŵl. Yn wir, roedd e mor cŵl medd un, 'Ma gan y boi ei theme tune ei hun!' Cytunodd pawb ac ebychu mewn edmygedd. Shot nesa'r ffilm oedd gweld y dyn cŵl yn cerdded lawr y stryd, ac yn wir, o'i ôl, roedd band cyfan yn ei ddilyn ac yn chwarae ei theme tune ei hun. Cŵl ...

Arwyr

Ry'n ni gyd yn arwyr yn stori ein bywydau ein hunain, onid ydyn? Fedrai pethau ddim bod fel arall, na fedran nhw? Achos os nad ydyn ni'n credu mai ni yw bogel ein bydysawd ein hunain, wel mae bywyd am fod yn anodd i ni. Dyma'n defence mechanism personol ni yn erbyn treialon y byd, ni yw'r rheswm fod pob dim arall yn bodoli, mae'n amlwg! Siawns bod gennym ni gyd theme tune yn chwarae yn ein pennau ar adegau; wrth i ni gerdded lawr y stryd ar neges i'r siop, neu wrth olchi llestri, neu beth bynnag. Ond weithiau dydy'r theme tune ddim i'w glywed. Efallai bod ein hwyl yn isel, neu'n bod ni'n cael ein

llethu gan amheuon. Dim ond tawelwch sydd wedyn.

Salm 46:1

Fe wŷr pob un ohonom fod gennym gymorth hawdd i'w gael mewn cyfyngder ym mherson lesu, y mae yntau'n cydgerdded gyda ni, yn wir y mae'n arwr yn ein bywydau ni. Mae ymddygiad lesu'n arwrol, y mae'r straeon yn y Testament Newydd yn tystio i hynny. O'r hanes amdano'n ddyn ifanc yn sefyll yn llawn hyder yn y synagog yn Nasareth, ei dref enedigol, yn darllen yn huawdl o'r ysgyrthurau, hyd at yr oriau olaf ingol ar y groes, sgwm i beth oedd y theme tune oedd yn mynd drwy ei ben ar yr adegau tyngedfennol hyn?

Yr arwr

Ond, wrth gwrs, y mae lesu yn fwy na jyst arwr cyffredin, achos nid dim ond i'w hunan y gwnaeth yr hyn a wnaeth, ond i'r ddynoliaeth cyfan, i ni, bob un ohonom. Ac felly, y peth hollol wych amdano yw, wedi meddwl, mae'n siŵr nad oes gan lesu theme tune, ond yn hytrach fe gasglodd ein holl theme tunes gwahanol ni ynghyd. Oherwydd y mae lesu'n cydgerdded â ni, mae e gyda ni drwy'r adeg, beth bynnag fo'r dôn, beth bynnag fo'r tempo, mae e yno, yn gwybod beth yw'r bît ... wastad yn cynnal ... wastad yn cŵl ...

EWR

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Allweddeiriau 5 – Eglwys

Pan glywn y gair 'eglwys' mae'n bosibl mai'r hyn sy'n dod i'n meddwl yn gyntaf yw adeilad mawr hynafol gyda ffenestri gwydr lliw. Ond beth sydd gan y Beibl i'w ddweud am ystyr y gair hwn?

Daw 'eglwys' yn wreiddiol o'r gair Groeg *ekklesia* sy'n golygu 'cynulleidfa' o bobl wedi'u casglu at ei gilydd. Yn y man, mabwysiadwyd y gair hwn gan Gristnogion y ganrif gyntaf i gyfeirio at gynulleidfa o bobl oedd yn credu yn Iesu. Yn wir, mae'r syniad mai adeilad yw 'eglwys' yn gwbl absennol o'r Beibl. Yn ôl diffiniad y Testament Newydd, *pobl* - nid adeilad – yw 'eglwys'. Cynulleidfa o bobl sy'n credu yn Iesu yw 'eglwys'. Teulu o Gristnogion sy'n cyfarfod er mwyn helpu ei gilydd i ddod i adnabod Iesu'n well yw 'eglwys'.

Cynulleidfa

Edrychwch ar y ffordd mae'r Apostol Paul yn diffinio'r gair hwn ar gychwyn ei lythyr cyntaf at y Corinthiaid: 'at eglwys Dduw sydd yng Nghorinth, at y rhai a sancteiddwyd yng Nghrist Iesu, ac sydd trwy alwad Duw yn saint.' (1 Corinthiaid 1:2) Nid adeilad yw'r 'eglwys' yng Nghorinth, ond cynulleidfa o Gristnogion sy'n cyfarfod â'i gilydd yn y ddinas honno. Yn ôl Paul, yr 'eglwys' yw'r 'rhai a sancteiddwyd yng Nghrist Iesu' a'r rhai sydd 'trwy alwad Duw yn saint'.

Capel

Mae'n bwysig ein bod ni'n cofio hyn heddiw. 'Capel' yw enw'r adeilad a ddefnyddiwyd i gyfarfod ynddo; ond 'eglwys' yw enw'r bobl hynny sy'n cwrdd yn y 'capel'. Dyna pam ein bod yn dweud ein bod ni'n mynd i'r capel, ond yn perthyn i eglwys. Yn wir, 'eglwys' sy'n cyfarfod mewn 'capeli' ydym ni.

Clod i Dduw am y fraint o gael perthyn i eglwys. Eglwysi o frodyr a chwiorydd sy'n credu ac yn caru'r Arglwydd Iesu ac sydd eisiau helpu ein gilydd i ddod i'w adnabod E yn well.

Gwilym Tudur



PROSIECT DIGIDOL DENMAN 2022

Gan ein bod ni parhau i fod mewn cyfnod gwahanol i'r arfer, eleni gwahoddir ysgolion Sul i ddefnyddio'u dychymyg a'u doniau creadigol i greu fideo byr (dim mwy na 2 funud o hyd) ar y thema:

Rheswm i ddathlu

'Dewch, gadewch i ni ganu'n llawen i'r Arglwydd.'

Salm 95:1

Ym mlwyddyn dathliadau 150 Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, pa resymau sydd gennym i ddathlu fel Cristnogion yng Nghymru heddiw?

Anfoner eich fideos at rhodri@annibynwyr.cymru erbyn 15 Mehefin 2022.

Caiff cyflwyniad o'r holl gyfraniadau ei ddangos yn ystod ein Cyfarfodydd Blynyddol yng Nghaerfyrddin ym mis Gorffennaf.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Thŷ John Penri: 01792 795888 neu undeb@annibynwyr.cymru

Erthyglau, llythrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
 Caerdydd, CF23 9BS
 Ffôn: 02920 490582
 E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
 LL49 9UE
 Ffôn: 01766 513138
 E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
 Porth Angel, 26 Teras Picton
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
 Ffôn: 01267 232577 /
 0781 751 9039
 E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
 Ffôn: 01792 795888
 E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Y Ddeuddegfed Salm

Wrth wyllo'r newyddion yr wythnos ddiwethaf a'r hyn oedd yn digwydd yn San Steffan, daeth geiriau proffwydol Salm 12 i'r cof.

Salm 12 Gweddi am help

¹Help, ARGLWYDD!

Does neb ffyddlon ar ôl!

Mae'r rhai sy'n driw wedi diflannu.

²Mae pawb yn dweud celwydd wrth ei gilydd;
maen nhw'n seboni ond yn ddauwynebog.

³Boed i'r ARGLWYDD roi stop ar eu geiriau ffals,
a rhoi taw ar bob tafod sy'n brolio!

⁴"Gallwn wneud unrhyw beth!" medden nhw.

"Gallwn ddweud beth leiciwn ni!

Dŷn ni'n atebol i neb!"

⁵Ond meddai'r ARGLWYDD:

"Am fod yr anghenus yn dioddef trais,

a'r tlawd yn griddfan mewn poen,

dw i'n mynd i weithredu.

Bydda i'n ei gadw'n saff;

ie, dyna mae'n dyheu amdano."

⁶Mae geiriau'r ARGLWYDD yn wir.

Maen nhw fel arian wedi'i buro mewn ffwrnais bridd,

neu aur wedi'i goethi'n drwyadl.

⁷Byddi'n gofalu amdanon ni, ARGLWYDD,

Byddwn ni'n saff o afael y genhedlaeth ddrwg yma

⁸sy'n cerdded o gwmpas yn falch,

a phobl yn canmol y pethau ofnadwy maen nhw'n eu gwneud!

Nid oes rhaid ymhelaethu. Y mae gair Duw yn fyw a grymus.

Gwnewch ychydig ddaioni yn y fan ble'r ydych chi; yr ychydig ddarnau o ddaioni hynny, o'u plethu ynghyd, sy'n gwednewid y byd.

Llun gan Ysgol Plasmawr, Caerdydd



Cyfarfodydd Blynyddol Caerfyrddin Gorff. 7 – 9

Y mae'n llawenydd datgan bod y paratoadau ar gyfer y cyfarfodydd blynyddol eleni, yn mynd rhagddynt yn dda ac yr ydym eisoes mewn dyled i gyfeillion caredig Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin am eu hymrwymiad i'r dasg o drefnu. Diolch.

Gobeithio y bydd effeithiau'r pandemig wedi pylu erbyn yr haf gan ein gadael ninnau'n rhydd i fynd a dod fel y dymunwn.

Penderfyniadau

Bydd cyfle i gyflwyno penderfyniadau i'r Gynhadledd a dylai rhybudd o bob penderfyniad, wedi ei lofnodi gan y cynigydd a'r eilydd, gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn **dydd Gwener, 20 Mai 2022, fan bellaf.**